

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol Cynllun Iaith Gymraeg

**Adroddiad Monitro Blynyddol 2020-21 i Gomisiynydd y
Gymraeg**

Cynnwys

1. Rhagarweiniad	3
2. Cefndir	4
3. Recriwtio	5
4. Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg	9
5. Y Pwyllgor Materion Cymreig	12

1. Rhagarweiniad

Dyma'r pumed Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Cynllun Iaith Gymraeg sydd wedi'i baratoi gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Mae'n ymwneud â'r cyfnod o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021. Mae'n dangos y cynnydd rydym wedi'i wneud o ran rhoi ein cynllun ar waith ers i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ei gymeradwyo ym mis Mai 2016. Mae'r cynllun ar gael ar wefan y Comisiwn: <https://www.judicialappointments.gov.uk/welshlanguage-scheme> ac <https://judicialappointments.gov.uk/welsh-language-scheme/>

Cyn hyn, roedd y Comisiwn yn rhan o Gynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Fe wnaethom ddatblygu'r cynllun gwirfoddol, arbenigol hwn er mwyn esbonio'n well sut rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n esbonio sut gall ymgeiswyr ar gyfer penodiadau barnwrol gyfathrebu â'r Comisiwn yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl eu dewis personol.

Mae'r cynllun yn amlinellu sut rydym yn gweithredu'r egwyddor yn Adran 5 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Dylid dehongli cwmpas ein hymrwymyiadau fel bod yn berthnasol i'r gweithgareddau a'r gwasanaethau recriwtio hynny yng Nghymru y gallwn eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.

2. Cefndir

Sefydlwyd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar 3 Ebrill 2006 o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Mae'r Comisiwn yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol sy'n cael ei noddi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Rydym yn dewis ymgeiswyr ar gyfer y swyddfa farnwrol mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, ac ar gyfer rhai tribiwnlysoedd gydag awdurdodaeth ledled y DU. Bydd ymgeiswyr yn cael eu dewis yn ôl teilyngdod, drwy gystadleuaeth deg ac agored, ac rydym wedi ymrwmo i ddenu ymgeiswyr o feysydd mor eang â phosibl. Rydym yn gweithio gydag ystod o sefydliadau i hyrwyddo swyddi gwag i ymgeiswyr cymwys.

Lansiodd y Comisiwn ei Gynllun Iaith Gymraeg ym mis Mai 2016, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Hydref 2015. Mae'r cynllun yn esbonio sut y byddwn yn trin y Cymraeg a'r Saesneg wrth asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer penodiad barnwrol yng Nghymru ac yn egluro y bydd ymgeiswyr yn gallu cyfathrebu â ni yn Saesneg neu Gymraeg, yn ôl eu dewis personol.

3. Recriwtio

Sefydliad yn Llundain yw'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol gyda tua 90 aelod o staff. Nid oes ganddo bresenoldeb cyflenwi parhaol yng Nghymru. Nid yw Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn cynnwys recriwtio staff y Comisiwn gan nad oes unrhyw ofynion o ran yr iaith Gymraeg wedi'u nodi ar gyfer staff.

Lle mae angen sgiliau Cymraeg ar gyfer apwyntiad barnwrol, rydym ar hyn o bryd yn cael ein cefnogi gan aelodau o farnwriaeth Cymru sy'n eistedd ar baneli dethol i asesu sgiliau Cymraeg. Trwy gydol 2020-21 mae'r JAC wedi cynnal ymarfer recriwtio agored i gynyddu nifer yr aelodau panel lle y gallu siarad Cymraeg. Rhagwelir y bydd yr aelodau newydd hyn yn ymuno â'r cnewyllyn trwy gydol 2021-22. Mae ymarferion dewis lle mae angen sgiliau iaith Gymraeg yn sicrhau ansawdd gan Gomisiynydd y JAC sydd â gwybodaeth arbennig am Gymru neu'r Comisiynydd a gaiff ei Aseinio i'r ymarfer.

Gofyniad ar gyfer dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru

Mae maen prawf dethol ychwanegol yn berthnasol i swyddi gwag yng Nghymru. Mae'r maen prawf wedi'i gymeradwyo gan yr Arglwydd Ganghellor ac yn nodi:

“Bydd yn rhaid i ymgeiswyr am swyddi yng Nghymru feddu ar ddealltwriaeth o sut gweinyddir cyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru a threfniadau datganoli yng Nghymru, neu'r gallu i feithrin y ddealltwriaeth hon”.

Pan fydd ymgeiswyr yn gwneud cais am swyddi yng Nghymru, gofynnir nifer o gwestiynau sy'n benodol i bob ymarfer yn ystod y cam cyfnewid, gydag ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar sail eu dealltwriaeth o faterion perthnasol i Gymru.

Ymarferion dethol 2020_21

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn adrodd yn flynyddol ar nifer yr ymarferion sy'n cael eu cwblhau yn ystod blwyddyn adrodd.¹ Cafodd y cynllun iaith Gymraeg ei roi ar waith ym mis Mai 2016 a chafodd ei gymhwyso ar gyfer ymarferion dethol a aeth i'r camau cynllunio o'r adeg honno ymlaen. Mae'r adran hon yn manylu ar ymarferion dethol a gafodd eu cwblhau a'u hadrodd rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 er mwyn rhoi trosolwg o'r broses recriwtio barnwrol yng Nghymru.

Cafodd 35 o ymarferion dethol eu cwblhau a'u hadrodd yn 2020-21. Bydd y maes busnes a'r farnwriaeth yn nodi'r gofynion ar gyfer swyddi gwag o safbwynt y Gymraeg, a bydd y Comisiwn yn asesu'r ymgeiswyr yn erbyn y rhain. Mae'r Comisiwn yn parhau i gynnal ymarferion dethol pan fo'r Gymraeg wedi cael ei nodi fel gofyniad ar gyfer un neu ragor o swyddi.

¹ <https://judicialappointments.gov.uk/annual-reports-and-accounts/>

Roedd yr ymarferion dethol canlynol wedi nodi swyddi gwag yng Nghymru lle roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol:

- **Cofiadur (133).** Roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer dwy swydd yn yr ymarfer dethol ar gyfer y Cofiadur. Lansiodd yr ymarfer cenedlaethol ar 23 Gorffennaf 2019 gyda 121 o swyddi gwag ledled Cymru a Lloegr. Argymhellwyd 121 o ymgeiswyr ac argymhellwyd bod naw ymgeisydd yn addas i'w penodi i swyddi Cymraeg, gan gynnwys un ymgeisydd ar gyfer rôl Gymraeg.

Nododd yr ymarferion dethol canlynol swyddi gwag yng Nghymru nad oedd ganddynt ofyniad Cymraeg ond oedd yn mesur dealltwriaeth ymgeiswyr o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:

- **Barnwr Rhanbarth (145).** Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Barnwyr Rhanbarth ar 9 Hydref 2019 gyda 75 o swyddi gwag gydag un swydd yng Nghymru. Aseswyd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd Gymraeg ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd 24 ymgeisydd, ac ni argymhellwyd bod unrhyw ymgeiswyr yn addas i'w penodi ar gyfer y swydd Gymraeg.
- **Dirprwy Gadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (151).** Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Dirprwy Gadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ar 14 Tachwedd 2019 gyda dwy swydd wag, y ddwy wedi'u lleoli yng Nghymru. Aseswyd pob ymgeisydd yn ôl ei dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Yn dilyn hynny, argymhellwyd bod dau ymgeisydd yn addas i'w penodi.
- **Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Teulu Dynodedig (00001).** Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Teulu Dynodedig ar 21 Ionawr 2020 gyda chwe swydd wag, un wedi'i lleoli yng Nghymru. Aseswyd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb yn y swydd Gymraeg ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd chwe ymgeisydd yn gyffredinol, gydag un ymgeisydd yn cael ei argymhell fel un sy'n addas i'w penodi i'r swydd Gymraeg.
- **Barnwr Cylchdaith (00006).** Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Barnwr Cylchdaith ar 25 Chwefror 2020 gyda 63 o swyddi gwag ledled Cymru a Lloegr. Aseswyd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb yn y swyddi Cymraeg yn ôl eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd 53 ymgeisydd yn gyffredinol, gydag chwe ymgeisydd yn cael eu hargymhell fel rhai sy'n addas i'w penodi i swyddi Cymraeg.
- **Barnwr y Tribiwnlys Haen Gyntaf (00009).** Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Barnwr y Tribiwnlys Haen Gyntaf ar 31 Mawrth 2020 gyda 70 o swyddi gwag (50 swydd ar unwaith ac 20 swydd yn y dyfodol) ledled Cymru a Lloegr ym mhob siambr Tribiwnlys haen gyntaf. Aseswyd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd Gymraeg ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd 70 o ymgeiswyr, gyda phedwar ymgeisydd yn cael eu hargymhell fel rhai sy'n addas i'w penodi i swyddi Cymraeg.

- **Barnwr y Tribiwnlys Cyflogaeth (00026).** Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Barnwr y Tribiwnlys Cyflogaeth ar 20 Mai 2020 gyda 25 o swyddi gwag ledled Cymru a Lloegr. Aseswyd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd Gymraeg ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd 21 ymgeisydd ac argymhellwyd bod dau ymgeisydd yn addas i'w penodi i swyddi Cymreig.
- **Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Preswyl (Caerdydd a Winchester) (00018).** Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Preswyl (Caerdydd a Winchester) ar 26 Mai 2020 gyda dwy swydd wag, un yng Nghaerdydd ac un yn Winchester. Aseswyd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb yn y swydd yng Nghaerdydd yn ôl eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Ni argymhellwyd unrhyw ymgeisydd ar gyfer swydd Caerdydd gydag un ymgeisydd yn cael ei argymhell ar gyfer swydd Winchester. Bydd swydd Caerdydd yn cael ei hail-hysbysebu yn 2021-22.
- **Cadeirydd Cyfreithiol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru y Telir Ffi Iddynt (00030).** Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Cadeirydd Cyfreithiol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru y Telir Ffi Iddynt ar 03 Medi 2020 gyda naw swydd wag, pob un wedi'i lleoli yng Nghymru. Aseswyd pob ymgeisydd yn ôl ei ddealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Yn dilyn hynny, argymhellwyd bod naw ymgeisydd yn addas i'w penodi.
- **Barnwr Cyflogaeth Rhanbarthol (Cymru a Chanolbarth Lloegr (Gorllewin) (00005).** Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Barnwr Cyflogaeth Rhanbarthol (Cymru) ar 16 Tachwedd 2020 gyda dwy swydd wag gydag un swydd yng Nghymru. Aseswyd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb yn y swydd Gymreig ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd bod un ymgeisydd yn addas i'w benodi i'r swydd Gymraeg ac un ymgeisydd ar gyfer y swydd yng Nghanolbarth Lloegr (Gorllewin).

Nododd yr ymarferion dethol canlynol swyddi gwag yng Nghymru nad oedd ganddynt ofynion Cymraeg, ac ni wnaethant brofi gwybodaeth ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:

- **Aelod Meddygol o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, Siambr Hawliau Cymdeithasol y Telir Ffi Iddynt (148).** Roedd gan yr ymarfer ar gyfer Aelod Meddygol y Telir Ffi Iddynt hyd at 203 o swyddi gwag a lansiodd ar 6 Tachwedd 2019. Mae hon yn rôl arbenigol gyda gofynion cymhwysedd penodol a gofynion gwybodaeth. Yn sgil y meini prawf cymhwysedd a'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y rôl, penderfynodd y JAC na fyddai profi gwybodaeth ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru hefyd yn ychwanegu gwerth pellach i'r broses ddethol; dewisodd y JAC 202 o ymgeiswyr.
- **Aelod Arbenigol o'r Uwch Dribiwnlys y Telir Ffi Iddynt a neilltuir i'r Siambr Apeliadau Gweinyddol (awdurdodaeth Datgelu a Gwahardd) a Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf (awdurdodaeth Safonau Gofal) (00011).** Roedd gan yr ymarfer ar gyfer Aelod Arbenigol y Telir Ffi Iddynt 10 swydd wag ac fe'i lansiodd ar 18 Chwefror 2020. Mae hon yn rôl arbenigol a oedd yn gofyn am wybodaeth fanwl a meini prawf cymhwysedd cyfyngol. Yn sgil y profiad a'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y rôl, penderfynodd y JAC na fyddai profi gwybodaeth ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru hefyd yn ychwanegu gwerth pellach i'r broses ddethol; dewisodd y JAC 10 ymgeisydd.
- **Aelod o Dribiwnlys Cymwysedig Anabledd o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf y Telir Ffi Iddynt, y Siambr Hawliau Cymdeithasol (Tribiwnlys Apeliadau Nawdd**

Cymdeithasol a Chynhaliaeth Plant) (00015). Roedd gan yr ymarfer ar gyfer Aelod Cymwysedig Anabledd y Telir Ffi Iddynt hyd at 80 o swyddi gwag, gyda hyd at chwe swydd yng Nghymru a cafodd ei lansio ar 11 Mawrth 2020. Mae hon yn rôl arbenigol gyda meini prawf cymhwysedd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr feddu ar wybodaeth am faterion anabledd neu fod yn anabl eu hunain. Yng sgil y meini prawf sy'n ofynnol ar gyfer y rôl, penderfynodd y JAC na fyddai profi gwybodaeth ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru hefyd yn ychwanegu gwerth pellach i'r broses ddethol; dewisodd y JAC 80 ymgeisydd.

- **Aelod Ariannol o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf y Telir Ffi Iddynt, Siambr Hawliau Cymdeithasol (00016).** Roedd gan yr ymarfer ar gyfer Aelod Ariannol y Telir Ffi Iddynt 17 o swyddi gwag, gyda dwy wedi'u lleoli yng Nghymru a cafodd ei lansio ar 24 Mawrth 2020. Mae hon yn rôl arbenigol gyda meini prawf cymhwysedd cyfyngedig. Yng sgil y meini prawf cymhwysedd a'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y rôl, penderfynodd y JAC na fyddai profi gwybodaeth ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru hefyd yn ychwanegu gwerth pellach i'r broses ddethol; dewisodd y JAC 12 ymgeisydd.
- **Aelod Lleyg Perchennog Tir o Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (00008).** Roedd gan yr ymarfer hwn ar gyfer Aelod Lleyg Perchennog Tir dair swydd wag, pob un wedi'i lleoli yng Nghymru ac fe'i lansiodd ar 27 Mai 2020. Mae hon yn rôl arbenigol gyda gofyniad cymhwysedd penodol. Yng sgil y profiad a'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y rôl, penderfynodd y JAC na fyddai profi gwybodaeth ymgeiswyr am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru hefyd yn ychwanegu gwerth pellach i'r broses ddethol; dewisodd y JAC un ymgeisydd.

Mae Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ofyn am gymorth gan gyrrff cyhoeddus eraill. Rhoddodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol gymorth i Lywodraeth Cymru yn yr ymarferion canlynol:

- **Aelod Panel ar gyfer Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru y Telir Ffi Iddynt (SENTW) (174).** Lansiodd yr ymarfer ar gyfer Aelod Panel Addysg y Telir Ffi Iddynt ar gyfer SENTW ar 15 Hydref 2019 gyda chwe swydd wag. Roedd angen i un ymgeisydd gynnal gwrandawriadau yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r pum ymgeisydd a argymhellwyd i'r rôl yn siarad Cymraeg ar lefel a oedd yn eu galluogi i gynnal gwrandawriadau yn Gymraeg¹.

¹ Cafodd yr ymarfer hwn ei gynnwys yn adroddiad 2019-20 mewn camgymeriad ond mae wedi'i gynnwys yma er cywirdeb gan fod yr ymarfer wedi'i adrodd yn y flwyddyn adrodd 2020-21.

4. Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg

Ymarferion dethol

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn berthnasol i ymarferion dethol gyda swyddi yng Nghymru a aeth i gamau cynllunio ar neu ar ôl Mai 2016. Dim ond mewn achosion eithriadol y mae JAC yn hysbysebu'n allanol. Roedd adran 'hysbysebu' ein Cynllun Iaith Gymraeg yn amlinellu darpariaethau ar gyfer unrhyw achosion lle defnyddiwyd hysbysebu allanol. Defnyddiwyd hysbysebu allanol ar gyfer ymarferion dethol y Dirprwy Farnwr Rhanbarth (Llys Ynadon) a oedd â swyddi yng Nghymru dros 2020-21.

Dros y cyfnod 2020–21, gwnaethom gyhoeddi cyfieithiadau Cymraeg o ddeunydd ymarfer dethol yn yr ymarferion canlynol:

- Cofiadur a lanswyd ar 2 Medi 2020
- Barnwr Rhanbarth a lanswyd ar 23 Medi 2020
- Dirprwy Farnwr Rhanbarth (Llys Ynadon) a lanswyd ar 2 Mawrth 2021

Mae Cynllun Iaith Gymraeg JAC yn nodi y byddwn yn hysbysebu swyddi sy'n gofyn am weithio yng Nghymru yn ddwyieithog ar y wefan. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, hysbysebwyd 15 o ymarferion yn ddwyieithog ac ni chyhoeddwyd un ymarfer yn ddwyieithog oherwydd gwall gweinyddol.

Atgoffwyd staff o'r gofyniad am gyfieithiadau ar yr un pryd mewn ymarferion sy'n cynnwys swyddi Cymraeg ac mae cyfres o weithdai hyfforddiant gloywi ar y gweill.

Mae gwelliannau i'r wefan dros y flwyddyn bellach yn galluogi i'r hysbysebion Cymraeg a Saesneg gael eu harddangos ar yr un pryd ar yr un dudalen.

Cwynion

Ni chafodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol unrhyw gwynion ffurfiol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu

Roedd y safonau adrodd a oedd wedi'u sefydlu'n flaenorol ar gyfer Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Penodiadau Barnwrol wedi aros yr un fath ar gyfer 2020-21: argaeledd y Cynllun; cyngor a chanllawiau; gallu digidol; polisïau newydd a diwygiedig; a monitro ac adolygu. Mae'r diweddariadau i'r cynllun gweithredu yn ystod 2020–21 wedi'u dangos mewn ffont trwm isod.

Thema a chyfeirnod	Gweithgaredd	Dyddiad targed	Cynnydd	Statws
Argaeledd	Cyhoeddi'r Cynllun ar wefan a mewnrwyd y Comisiwn	Mawrth 2016	Yr ymgynghoriad i agor ym mis Hydref 2015 a chau ym mis Rhagfyr 2015, er mwyn i'r Comisiwn ymateb iddo ym mis Mawrth 2016	Wedi cwblhau. Y cyhoeddiad wedi'i ohirio yn sgil y cyfnod cyn etholiad 2016 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyhoeddwyd ar 23 Mai 2016.
Cyngor ac arweiniad	Datblygu canllaw mewnol i gyd-fynd â'r polisi, gan gynnwys asesu sgiliau iaith a gwybodaeth am amrywiaeth o ran y gyfraith, trefniadau datganoli ac ati.	Cyhoeddiad cyntaf ym mis Mawrth 2016. Adolygiad o ddogfennau polisi perthnasol yn dal yn mynd rhagddo	Wedi cwblhau Parhaus	Wedi cwblhau – y canllaw ar gael i'r holl staff o fis Mawrth 2016 ymlaen Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar gyfer staff gweithredol ym mis Ebrill 2016 cyn rhoi'r canllaw ar waith. Sesiynau hyfforddiant gloywi wedi'u cynnal yn ystod 2020-21 hefyd
Gallu digidol	Cafodd Plattform Digidol Newydd JAC ei ddatblygu a'l wella yn ystod 2020-21.	Parhaus	Gohiriwyd	Bydd y broses o wneud ffurflenni cais ar gael yn Gymraeg yn cael ei chynnal yn ystod y 12 mis nesaf.
Polisiâu newydd a diwygiedig	Ystyried effaith y polisiâu newydd a diwygiedig ar y Cynllun Iaith Gymraeg	Parhaus	Bydd y broses o weithredu hyn yn cael ei monitro'n barhaus	Parhaus. Bellach mae ymgeiswyr yn gallu cyflwyno unrhyw adran naratif o Brawf Cymhwys yn Gymraeg, sydd wedyn yn cael ei chyfieithu.
Monitro ac arolygu	Paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg a fydd ar gael i Fwrdd a Phwyllgor Gwaith y Comisiwn; Cydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Nawdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Barnwr Cyswllt Cymru	Blynyddol		Wedi cwblhau: Adroddiad Monitro Blynyddol 2016-17 – cyhoeddwyd mis Hydref 2017 Adroddiad Monitro Blynyddol 2017-18 – cyhoeddwyd mis Tachwedd 2018 Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-2019 –

				cyhoeddwyd mis Rhagfyr 2019 Cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol 2020– 2021 ym mis Tachwedd 2021
--	--	--	--	---

5. Y Pwyllgor Materion Cymreig

Mae Pwyllgor Materion Cymru yn is-bwyllgor i Fwrdd Comisiwn JAC. Cafodd y Pwyllgor ei gynnwys yn ystod y cyfnod hwn o Gomisiynydd JAC gyda gwybodaeth arbennig am Gymru y Gwir Anrh. Y Parch. Dr. Barry Morgan yn gadeirydd y Pwyllgor a Barnwr Rhanbarthol y Comisiynwyr Mathu Asokan a Brie Steven-Hoare QC yn aelodau o'r Pwyllgor.

Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol Pwyllgor Materion Cymru ar 9 Mawrth 2017, ac mae'r Pwyllgor yn cwrdd bob yn ail fis.

Prif bwrpas y Pwyllgor yw monitro effaith bosibl datganoli yng Nghymru ar y broses benodi ar gyfer swyddi barnwrol ledled Cymru a Lloegr, a sicrhau bod y Comisiwn yn ymwybodol o anghenion Cymru.

Dros y flwyddyn adrodd, mae'r Pwyllgor wedi:

- Cymryd rhan yng Nghynhadledd Cymru'r Gyfraith ym mis Hydref 2020
- Parhau i fonitro datblygiadau Pwyllgor Hyfforddi Cymru i sicrhau bod profion JAC ar wybodaeth Gymreig yn ystyried gwaith y Coleg Barnwrol wrth ymdrin â goblygiadau hyfforddi deddfwriaeth ddatganoledig
- Monitro cyflwyno ymarferion dethol yng Nghymru

Mae Pwyllgor Materion Cymru wedi ymateb ar ran y JAC i'r ymgynghoriad canlynol a allai effeithio ar dirwedd cyfreithiol Cymru:

- Comisiwn y Gyfraith - Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru